
# Sir Ddinbych Hygyrch




# Coed Nercwys

## Gwybodaeth am y Llwybr

Mae modd dilyn taith gron o'r naill faes parcio neu'r llall ar hyd llwybrau amlddefnyddiwr. Mae gan brif lwybr llinellol y goedwig arwyneb solet, cadarn. Gall llwybrau eraill droi'n fwdlyd, oherwydd y gorchudd o goed a'r prinder golau haul i sychu'r llwybrau.

*Pellter:* 2.8 milltir / 4.5cilomedr.

*Neilltuwch:* 1.5 – 2 awr.

*Arwyneb:* Llwybrau gydag arwyneb cadarn naturiol, sy'n gallu troi'n wlyb a mwdlyd mewn mannau. Ar rai llethrau, mae cerrig mawrion yn ymwthio i'r wyneb.

*Lled y llwybr:* Mae un rhan fach o'r llwybr yn culhau i 40cm.

*Llethrau:* Mae sawl llethr wedi'u lleoli ar hyd y daith. Mae gan ambell un o'r rhain gerrig mawrion yn ymwthio i'r wyneb.

*Giatiau:* Fe leolir giatiau ar y mynedfeydd o'r meysydd parcio. Mae cliriad yn 110cm fan leiaf.

## Gwybodaeth i Ymwelwyr

Ar gyfer Llywio â Lloeren, defnyddiwch y cyfeirnod grid SJ218593. Does dim trafnidiaeth gyhoeddus at y safle hwn.

*Parcio:* Mae parcio ar gyfer ceir ar gael ger mynedfeydd gogleddol a deheuol y safle. Mae i'r meysydd parcio arwyneb cadarn wedi'i gywasgu, gyda rhai darnau mawr o raean ar y maes parcio gogleddol. Does dim llefydd wedi'u dynodi ac mae'r parcio'n rhad ac am ddim.

*Toiledau:* Does dim toiledau wedi'u lleoli ar y safle.

**Dewch â dillad rhag y glaw a gwisgwch esgidiau addas. Defnyddiwch hufen haul ym misoedd yr haf.**

Gwybodaeth bellach: www.denbighshirecountryside.org.uk